

Canllawiau Esboniadol i Ymgeiswyr

Cais am Ganiatáu neu Amrywio Trwydded Safle o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Cyn llenwi'r ffurflen hon darllenwch bolisi trwyddedu y Cyngor, y canllawiau ar ddiwedd y ffurflen, a'r canllawiau esboniadol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan Adran 182 o'r Ddeddf Trwyddedu ac sydd i'w gweld ar y wefan www.homeoffice.gov.uk a'r canllawiau isod.

Os ydych yn cyflwyno cais yn electronig ar-lein:-

1. Lawrlwythwch y ffurflen gais a'r ffurflen ganiatâd gan ddefnyddio'r dolenni ar ein gwefan <http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/trwyddedu-a-hawlenni/alcohol-ac-adloniant/trwydded-safle/>
2. Cyflwynwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau, y dogfennau atodol e.e. cynllun y safle, ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi a thalwch y ffi a bennwyd ar gyfer y cais (gweler y nodiadau hyn ar dudalen 4) gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein. Er mwyn caniatáu trwydded, rhaid i ymgeiswyr unigol ddarparu copiâu o ddogfennau sy'n dangos eu cymhwysedd i weithio. Ceir rhestr lawn o'r dogfennau derbyniol yn nodyn cyfarwyddyd 15 ar ddiwedd y ffurflen gais.
3. Yr Adain Trwyddedu sy'n gyfrifol am anfon copi o'r cais ymlaen at yr awdurdodau cyfrifol os yw'r cais wedi cael ei gyflwyno ar-lein.
4. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd osod hysbysiad ynghylch y cais ar y safle ac yn y wasg leol (gweler tudalen 2).

Os ydych yn cyflwyno copi caled o'r cais:-

1. Mae'n rhaid cyflwyno'r cais, wedi ei gwblhau a'r dogfennau atodol e.e. y cynllun a'r ffi, i'r Awdurdod Trwyddedu (gweler y ffioedd ar dudalen 5).
2. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd anfon y cais wedi ei gwblhau a'r dogfennau atodol at yr holl Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb (gweler y rhestr o'r Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb ar dudalennau 8-10). Er mwyn caniatáu trwydded, rhaid i ymgeiswyr unigol ddarparu copiâu o ddogfennau sy'n dangos eu cymhwysedd i weithio. Ceir rhestr lawn o'r dogfennau derbyniol yn nodyn cyfarwyddyd 15 ar ddiwedd y ffurflen gais.

Dylai'r Awdurdod Trwyddedu a'r Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb dderbyn eu ceisiadau yr un diwrnod. Er eich budd eich hun, mae'n bosibl y byddwch am gael derbynneb am gyflwyno'r cais neu anfon y cais trwy'r post cofrestredig a chadw'r derbynebau yn dystiolaeth fod y ceisiadau wedi cael eu hanfon.

3. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd osod hysbysiad ynghylch y cais ar y safle ac yn y wasg leol, (gweler tudalen 2).

Dyma'r weithdrefn ar ôl cyflwyno cais cyflawn:

- Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cyhoeddi manylion y cais ar ei wefan.
- Bydd unrhyw sylwadau sy'n dod i law'r Awdurdod Trwyddedu yn ystod y cyfnod ymgynghori 28 diwrnod yn cael eu hanfon ymlaen at yr ymgeisydd i gael eu hystyried.
- Ar ddiwedd yr 28 niwrnod os bydd materion na chytunwyd arnynt neu na chafodd eu datrys trwy drafod â'r ymgeisydd, cyfeirir y cais i sylw'r is-bwyllgor trwyddedu i gael ei ystyried. Fel arall, bydd yr adain drwyddedu yn penderfynu ar y cais ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen â llawysgrifen, a fydddech cystal ag ysgrifennu'n glir gan ddefnyddio **priflythrennau**. Ym mhob achos gofalgwch fod eich atebion o fewn llinellau'r blychau ac wedi'u hysgrifennu mewn inc du. Defnyddiwch ddalennau ychwanegol os bydd angen. Mae'n bosibl y dymunwch gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau er gwybodaeth.

Awgrymir yn gryf fod ymgeiswyr yn ymgynghori â'r Awdurdod Trwyddedu, yr Awdurdodau sydd â Chyfrifoldeb (gweler Atodiad B, Polisi Trwyddedu y Cyngor), busnesau a thrigolion lleol wrth lunio'u hamserlenni gweithredu. Cred yr Awdurdod Trwyddedu yn gryf y bydd hyn yn cynorthwyo ymgeiswyr i glustnodi problemau posibl fel y gellir ymdrin â hwy cyn eu bod yn digwydd, a lliniaru ofnau'r cyfryw fusnesau a phreswylwyr o ran effaith y cais.

Gellir cael amodau enghreifftiol gan yr adain drwyddedu. Mae'r manylion cyswllt ar dudalen 8.

I gael rhagor o wybodaeth edrychwch ar wefan y Cyngor: www.sirgar.llyw.cymru neu cysylltwch â'r adran hon.

Dylid darllen y nodiadau hyn ochr yn ochr â'r canllawiau sydd i'w gweld ar ddiwedd y ffurflen gais berthnasol.

Hysbysebu ceisiadau

Yn achos cais am drwydded safle neu am amrywio trwydded safle, bydd y sawl sy'n cyflwyno'r cais yn hysbysebu'r cais mewn **dwy ffordd**: -

1. Hysbysiad Safle

Rhaid arddangos hysbysiad am gyfnod nad yw'n llai nag 28 niwrnod yn olynol gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl dyddiad rhoi'r cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol a'r awdurdodau sydd â chyfrifoldeb, a hwnnw fel a ganlyn: -

(a) un maint A4 neu fwy,

(b) un lliw glas golau,

- (c) wedi'i argraffu'n glir mewn inc du neu wedi'i deipio mewn inc du a maint y llythrennau yn 16 neu'n fwy;
- (d) ym mhob achos, rhaid ei arddangos mewn man amlwg ar y safle y mae'r cais yn berthnasol iddo, fel y gellir ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r safle ac, yn achos safle y mae'i arwynebedd yn fwy na hanner can metr sgwâr, rhoi hysbysiad arall ar yr un ffurf ac sy'n bodloni'r un gofynion a hynny bob hanner can metr ar hyd perimedr allanol y safle sy'n ffinio â phriffordd.

* Nodir cynnwys yr Hysbysiad Safle isod ac atodir Hysbysiad Safle enghreifftiol ar dudalen 12.

2. Nodyn i'r Wasg

Mae'n rhaid cyhoeddi hysbysiad: -

- (i) mewn papur newydd lleol neu, os nad oes un, mewn newyddlen, cylchlythyr neu ddogfen debyg a ddsberthir yng nghyffiniau'r safle;
- (ii) o leiaf unwaith yn ystod cyfnod o ddeng niwrnod gwaith gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl dyddiad rhoi'r cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol.

*Nodir cynnwys yr Hysbysiad i'r Wasg isod ac atodir hysbysiad enghreifftiol ar dudalen 11.

Cynnwys yr Hysbysiad Safle/Hysbysiad i'r Wasg

Mae'n rhaid cynnwys y wybodaeth ganlynol yn yr hysbyseb papur newydd ac yn yr hysbysiad safle:-

- (a) datganiad ynghylch y gweithgareddau trwyddedadwy y bwriedir eu cynnal ar y safle;
- (b) manylion llawn oriau agor arfaethedig y safle.

Hefyd, mae'n rhaid nodi yn yr hysbysiad: -

- (a) enw'r ymgeisydd;
- (b) cyfeiriad post y safle, os oes un, neu os nad oes gan y safle gyfeiriad post, ddisgrifiad digonol o'r safle fel y gellir adnabod lleoliad a graddau'r safle;
- (c) y cyfeiriad post a, lle bo hynny'n berthnasol, y cyfeiriad ar y we fyd-eang lle cedwir cofrestr yr awdurdod trwyddedu perthnasol a lle a phryd y gellir gweld y cofnod o'r cais;
- (d) y dyddiad pryd y caiff awdurdod sydd â chyfrifoldeb neu unrhyw un arall gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu perthnasol;
- (e) bod yn rhaid cyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig; ac
- (f) bod gwneud datganiad anwir mewn perthynas â chais, yn ymwybodol neu'n fyrbwyll, yn drosedd ac uchafswm y ddirwy a gaiff y sawl sy'n derbyn collfarn ddiannod.

Hysbysebu ceisiadau gan yr Awdurdod Trwyddedu

Hysbysebir crynodeb o'r cais ar wefan yr Awdurdod Trwyddedu.

Cynllun o'r Safle

Mae'n rhaid cyflwyno cynllun o'r safle i gyd-fynd â'r ffurflenni cais. Nid oes rhaid i'r cynllun fod yn un a luniwyd yn broffesiynol, fodd bynnag mae'n rhaid i'r cynllun a'r wybodaeth sydd ynddo fod yn glir ac yn ddealladwy. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn am gynllun wrth raddfa o 1:100 sy'n dangos y manylion canlynol:-

- (a) graddau terfyn yr adeilad, os yw hynny'n berthnasol, a holl waliau mewnol ac allanol yr adeilad a pherimedr y safle, os yw hynny'n wahanol;
- (b) lleoliad mynedfeydd ac allanfeydd y safle;
- (c) lleoliad y llwybrau dianc o'r safle os ydynt yn wahanol i baragraff (b);
- (d) os bydd safle'n cael ei ddefnyddio ar gyfer mwy nag un gweithgaredd trwyddedadwy, y rhan o'r safle a ddefnyddir ar gyfer pob gweithgaredd;
- (e) os yw'r gweithgaredd trwyddedadwy yn ymwneud â chyflenwi alcohol, y lleoliad neu'r lleoliadau ar y safle a ddefnyddir ar gyfer yfed alcohol;
- (f) strwythurau gosod (gan gynnwys celfi) neu eitemau tebyg a gedwir dros dro mewn lleoliad penodedig (ac eithrio celfi) a all effeithio ar allu unigolion ar y safle i ddefnyddio allanfeydd neu lwybrau dianc yn ddirwystr;
- (g) os yw'r safle'n cynnwys llwyfan neu fan uchel, lleoliad ac uchder pob llwyfan neu fan o'u cymharu â'r llawr;
- (h) os yw'r safle'n cynnwys stepiau, grisiau, lifftiau neu risiau symudol, lleoliad y stepiau, grisiau, lifftiau neu risiau symudol;
- (i) os yw'r safle'n cynnwys ystafell neu ystafelloedd sy'n cynnwys cyfleusterau cyhoeddus, lleoliad yr ystafell neu'r ystafelloedd;
- (j) y mathau o offer diogelwch rhag tân ac unrhyw offer diogelwch arall a'u lleoliad; ac
- (k) lleoliad y gegin ar y safle, os oes un.

Gellir defnyddio symbolau ar y cynllun i ddarlunio'r materion a nodir neu y cyfeirir atynt uchod a chynnwys allwedd i egluro'r rhain.

Cyn gwneud cais, cofiwch gysylltu â'r adran i drafod y cynllun rydych am ei gyflwyno.

Ffioedd gwneud cais

Pennwyd y ffioedd ar gyfer pob caniatâd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 gan y llywodraeth ganolog. Seiliwyd y ffioedd ar werth ardrethol annomestig y safle. Rhennir y rhain yn 5 band.

Caiff ceisiadau am drwyddedau safleoedd a safleoedd clwb eu cyfrifo ar sail gwerth ardrethol pob safle trwyddedig.

GWERTH ARDRETHOL	BAND
Dim gwerth ardrethol - £4,300	A
£4,301 - £33,000	B
£33,001 - £87,000	C
£87,001 - £125,000	D
£125,001 a throsodd	E

Mae gan bob band ffi wahanol ar gyfer gwneud cais.

BAND	FFI
A	£100
B	£190
C	£315
D	£450
E	£635

Dylech gynnwys y ffioedd gyda'ch ffurflen gais. Fel arall, ni fydd y cais yn cael ei brosesu a byddwn yn rhoi gwybod ichi am hyn.

Dylai pob siec fod yn daladwy i "Cyngor Sir Caerfyrddin" a dylid nodi'r swm cywir arni.

Ffioedd Blynyddol

Unwaith y rhoddir Trwydded Safle neu Dystysgrif Safle Clwb bydd ffi flynyddol yn berthnasol a gaiff ei thalu yn flynyddol ar ben-blwydd rhoi'r drwydded. Cyfrifir y ffi flynyddol ar sail band gwerth ardrethol y safle.

BAND	FFI
A	£70
B	£180
C	£295
D	£320
E	£350

Digwyddiadau Eithriadol o Fawr

Y nifer sy'n bresennol ar unrhyw un adeg	Ffi ychwanegol
5,000 - 9,999	£1,000
10,000 - 14,999	£2,000
15,000 - 19,999	£4,000
20,000 - 29,999	£8,000
30,000 - 39,999	£16,000
40,000 - 49,999	£24,000
50,000 - 59,999	£32,000
60,000 - 69,999	£40,000
70,000 - 79,999	£48,000
80,000 - 89,999	£56,000
90,000 a throsodd	£64,000

Ffioedd sy'n daladwy ar gyfer ceisiadau eraill sy'n ymwneud â Safle neu Glwb

Dwyn, colli ac ati y drwydded safle neu'r crynodeb	£10.50
Hysbysiad ynghylch newid enw neu gyfeiriad	£10.50
Cais am amrywio trwydded i bennu unigolyn fel goruchwylydd safle	£23.00
Cais am drosglwyddo trwydded safle	£23.00
Cais am wneud mân amrywiad i Safle / Clwb	£89
Datgymhwyso Gofyniad Safle Cymunedol ar gyfer Goruchwylydd Penodedig y Safle (oni bai y cyflwynir hyn â chais am grant).	£23
Hysbysiad awdurdod interim yn dilyn marwolaeth ac ati deiliad y drwydded	£23.00
Dwyn, colli ac ati y dystysgrif neu'r crynodeb	£10.50
Hysbysiad ynghylch newid enw neu newid rheolau'r clwb	£10.50
Newid cyfeiriad cofrestredig perthnasol y clwb	£10.50
Dyletswydd i roi gwybod am newid enw neu gyfeiriad	£10.50
Hawl rhydd-ddeiliad ac ati i gael gwybod am faterion trwyddedu	£21.00

Ildio Trwydded Safle

Atgoffir ymgeiswyr fod yn rhaid iddynt drosglwyddo'r drwydded neu ildio'r drwydded yn ffurfiol os na fydd angen y drwydded safle arnynt mwyach. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y prosesau hyn gan yr Adain Drwyddedu

EITHRIO RHAG TALU FFIOEDD

Mae'r eithriadau hyn yn berthnasol ar gyfer adloniant rheoledig yn unig ac nid ydynt yn berthnasol os yw alcohol yn cael ei werthu neu ei gyflenwi a/neu os darperir lluniaeth hwyrnos ar y safle.

Nid oes ffi yn daladwy i gyd-fynd â'r cais os bodlonir rhai amodau.
Y canlynol yw'r amodau y cyfeiriwyd atynt:-

- (a) yn achos perchennog sefydliad addysg, yng nghyswllt safle sy'n sefydliad addysg neu'n rhan o sefydliad addysg:-
 - (i) Bod y sefydliad addysg yn ysgol neu'n goleg;

ac

- (ii) Bod yr adloniant rheoledig a ddarperir ar y safle yn cael ei ddarparu gan y sefydliad addysg at ddibenion y sefydliad addysg neu ar ei ran; neu
- (b) Bod y safle yn rhan o neuadd eglwys, neuadd capel neu adeilad tebyg neu neuadd bentref, neuadd y plwyf neu neuadd gymunedol neu adeilad tebyg.

Mae dyletswydd arnom, fel corff cyhoeddus, i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a weinyddir gennym ac i'r diben hwn mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon i atal a darganfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.

Manylion Cyswilt yr Awdurdod Trwyddedu a'r Awdurdodau Cyfrifol.

<p><u>Yr Awdurdod Trwyddedu</u> Yr Adain Drwyddedu Is-adran Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Caerfyrddin 3 Heol Spilman Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 1LE</p>	<p>Rhif ffôn 01267 234567 e-bost: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk Rhif Ffacs. 01267 229141</p>
<p><u>Materion Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Bwyd</u> Rheolwr y Gwasanaethau Masnachol Is-adran Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Caerfyrddin 3 Heol Spilman Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 1LE</p>	<p>Rhif ffôn 01267 234567 e-bost: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk Rhif Ffacs. 01267 221616</p>
<p><u>Safonau Masnach Cynllun Validate, Gwerthu Nwyddau i Bobl Dan Oedran</u> Y Rheolwr Safonau Masnach Is-adran Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Caerfyrddin 3 Heol Spilman Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 1LE</p>	<p>Rhif ffôn 01267 234567 e-bost: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk</p>
<p><u>Yr Awdurdod Cynllunio</u> Pennaeth Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin 8 Heol Spilman Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 1JY</p> <p>Neu Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (ar gyfer safleoedd sy'n rhan o'i ardal weinyddol)</p> <p>Swyddog Gorfodi Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Plas Y Ffynnon Ffordd Cambria Aberhonddu Powys LD3 7HP</p>	<p>Rhif ffôn 01267 242454 E-bost: cynllunio@sirgar.gov.uk</p> <p>Rhif Ffôn. Nac oes. 01874 620431 E-bost: planning.enquiries@breconbeacons.org Rhif Ffacs. 01874 622524</p>

<p><u>Atal Niwsans Cyhoeddus</u> Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd Adain Llygredd Neuadd y Dref, Rhydaman Heol Iscennen Rhydaman Sir Gaerfyrddin SA18 3BE</p>	<p>Rhif ffôn 01267 234567 e-bost: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk Rhif Ffacs. 01267 221616</p>
<p><u>Awdurdod yr Heddlu</u> Swyddog Trwyddedu Gorsaf yr Heddlu Heol y Ffowndri Rhydaman Sir Gaerfyrddin SA18 2LS</p>	<p>Rhif ffôn 101 Est 26464 e-bost: Mike.Price@Dyfed-Powys.pnn.police.uk</p>
<p><u>Yr Awdurdod Tân</u> Y Rheolwr Sirol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Pencadlys Ardal Reoli Sirol Sir Gaerfyrddin Lôn Pisgwydd Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 1SP</p>	<p>Rhif ffôn 0870 6060699 e-bost: Mail@Mawwfire.gov.uk Rhif Ffacs: 01267 228908</p>
<p><u>Addysg a Gwasanaethau Plant</u> Rheolwr Bwrdd Lleol Diogelu Plant Caerfyrddin Cyngor Sir Caerfyrddin Adeilad 2 Parc Dewi Sant Heol Ffynnon Job Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 3HB</p>	<p>Rhif ffôn 01267 246544 e-bost: gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk Rhif Ffacs: 01267 246746</p>
<p><u>Yr Awdurdod Iechyd</u> Y Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda Parc Dewi Sant Heol Ffynnon Job Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 3HB</p>	<p>e-bost: alison.gittins@wales.nhs.uk</p>
<p><u>Home Office Immigration Enforcement</u> Alcohol Licensing Team Lunar House 40 Wellesley Road Croydon CR9 2BY</p>	<p>e-bost: Alcohol@homeoffice.gsi.gov.uk</p>

Dylai'r ymgeiswyr am drwyddedau mewn perthynas â llongau o bob math ('vessels') gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybodaeth berthnasol ar gyfer safleoedd y mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol amdanynt yn unig

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Is-adran Gwasanaethau Tŷ Myrddin Heol Yr Hen Orsaf Caerfyrddin Sir Gaerfyrddin SA31 1LP	Rhif ffôn 01267 244230 Rhif Ffacs 01267 223267
--	---

Hysbysiad enghreifftiol i'r Wasg

Hysbysiad ynghylch cais am:

**Trwydded Safle/ Datganiad Amodol/Amrywio Trwydded Safle.*

*Tystysgrif Safle Clwb / Amrywio Tystysgrif Safle Clwb**

o dan adran *17/29/34 71/84 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (gweler nodyn 1 isod).

Enw'r ymgeisydd:

Cyfeiriad y safle:

.....

Bwriedir *rhoi trwydded i'r safle hwn/amrywio trwydded y safle hwn

(gweler nodyn 2 isod)

.....

.....

.....

.....

.....

Gellir gweld y cais llawn yn Swyddfeydd y Cyngor (gweler y cyfeiriad isod) ar y diwrnodau a'r amserau canlynol: -

Dydd Llun, Dydd Mawrth, Dydd Mercher, Dydd Iau: 8.45am – 5.00pm;

Dydd Gwener 08:45 - 4:30pm.

Rhaid i unrhyw sylwadau gael eu cyflwyno erbyn (gweler nodyn 3 isod)

.....

YN YSGRIFENEDIG i sylw: -

Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel :

Cyngor Sir Caerfyrddin

3 Heol Spilman

Caerfyrddin

SA31 1LE

E-bost: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

Rhif Ffacs: 01267 229141

Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir mewn perthynas â chais, yn ymwybodol neu'n fyrbwyll, a gellir rhoi dirwy o hyd at £5,000 i'r sawl sy'n derbyn collfarn ddiannod am y drosedd.

*Dileer yr amherthnasol

(1) Adran 17 – Cais am Drwydded Safle;

Adran 29 – Datganiad Amodol;

Adran 34 - Amrywio Trwydded Safle;

Adran 71 – Tystysgrif Safle Clwb;

Adran 84 – Amrywio Tystysgrif Safle Clwb; Dileer yr amherthnasol

(2) Yn fyr, disgrifiwch y gweithgareddau yr ydych wedi gwneud cais amdanynt yn atodlen weithredu eich cais, gan gynnwys yr oriau agor/cau, neu'r amrywiad i'r gweithgareddau trwyddedadwy presennol.

(3) Nodwch y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau, sef ymhen 28 niwrnod yn olynol gan ddechrau y diwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r cais wedi'i gwblhau i'r awdurdod trwyddedu ac i'r awdurdodau sydd â chyfrifoldeb.

HYSBYSIAD SAFLE ENGHREIFFTIOL

Hysbysiad ynghylch cais am:
Trwydded Safle / Datganiad Amodol / Amrywio Trwydded Safle.
Tystysgrif Safle / Amrywio Tystysgrif Safle Clwb o dan adran 17/29/34 71/84*
o Ddeddf Trwyddedu 2003.

Enw'r ymgeisydd:
Cyfeiriad y safle:

.....

Bwriedir *rhoi trwydded i'r safle hwn/amrywio trwydded y safle hwn
**Gweler y Canllawiau drosodd

.....
.....
.....
.....

Gellir gweld y cais llawn yn Swyddfeydd y Cyngor (gweler y cyfeiriad
isod) ar y diwrnodau a'r amserau canlynol: -
Dydd Llun – Dydd Iau: 8.45am – 5.00pm; Dydd Gwener 08:45 -
4:30pm.

Rhaid i unrhyw sylwadau gael eu cyflwyno erbyn
***Gweler y Canllawiau drosodd

.....

YN YSGRIFENEDIG at: -
Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel:
Cyngor Sir Caerfyrddin
3 Heol Spilman, Caerfyrddin
SA31 1LE
E-bost: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk
Rhif Ffacs: 01267 229141

Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir mewn perthynas â chais, yn
ymwybodol neu'n fyrbwyll, a gellir rhoi dirwy o hyd at £5,000 i'r sawl sy'n
derbyn collfarn ddiannod am y drosedd.

Canllawiau

Rhaid arddangos hysbysiad am gyfnod nad yw'n llai nag **28 niwrnod** gan ddechrau ar y diwrnod ar ôl dyddiad rhoi'r cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol, a hwnnw fel a ganlyn: -

- (a) un maint A4 neu fwy,
- (b) un lliw glas golau,
- (c) wedi'i argraffu'n glir mewn inc du neu wedi'i deipio mewn inc du a maint y llythrennau yn 16 neu'n fwy;
- (d) ym mhob achos, rhaid ei arddangos mewn man amlwg ar y safle y mae'r cais yn berthnasol iddo, fel y gellir ei ddarllen yn gyfleus o'r tu allan i'r safle ac, yn achos safle y mae'i arwynebedd yn fwy na hanner can metr sgwâr, rhoi hysbysiad arall ar yr un ffurf ac sy'n bodloni'r un gofynion a hynny bob hanner can metr ar hyd perimedr allanol y safle sy'n ffinio â phriffordd.

*Dileer yr amherthnasol

1. Adran 17 – Cais am Drwydded Safle;
Adran 29 – Datganiad Amodol;
Adran 34 - Amrywio Trwydded Safle;
Adran 71 – Tystysgrif Safle Clwb;
Adran 84 – Amrywio Tystysgrif Safle Clwb; Dileer yr amherthnasol
2. Yn fyr, disgrifiwch y gweithgareddau yr ydych wedi gwneud cais amdanynt yn atodlen weithredu eich cais, gan gynnwys yr oriau agor/cau, neu'r amrywiad i'r gweithgareddau trwyddedadwy presennol.
3. Nodwch y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau, sef ymhen 28 niwrnod yn olynol gan ddechrau y diwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r cais i'r awdurdod trwyddedu.